**Polisi Ad-daliadau Adleoli AaGIC ar gyfer Meddygon a Deintyddion Preswyl**

## 1. Cyflwyniad

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am hyfforddi tua 4000 o feddygon a deintyddion ledled Cymru. Fel rhan o'u cylchdroadau hyfforddi, bydd meddygon a deintyddion preswyl yn aml yn symud o un Darparwr Addysg Lleol i un arall er mwyn sicrhau bod ystod eang o gymwyseddau hyfforddi'n cael eu datblygu. Ceir saith Bwrdd Iechyd a thair Ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu hyfforddiant yng Nghymru. At hynny, o bryd i'w gilydd, bydd meddygon a deintyddion preswyl yn cael hyfforddiant mewn lleoliadau y tu allan i Gymru; mae'r cyfleoedd hyn yn helpu i gefnogi datblygiad rhaglenni hyfforddi rhanbarthol ac i gyflawni gofynion cwricwla.

Gall cylchdroi i wahanol leoliadau hyfforddi achosi straen, a chreu baich ariannol ychwanegol i feddygon a deintyddion preswyl yn sgil adleoli i leoliad y swydd hyfforddi newydd neu gost teithio ychwanegol, pe baent yn dewis teithio o'u lleoliad gwreiddiol.

Mae AaGIC wedi ymrwymo i gefnogi a hybu llesiant meddygon a deintyddion preswyl ac i gydnabod y gwasanaeth amhrisiadwy maen nhw'n ei roi i bobl Cymru. Mae ein Polisi Ad-daliadau Adleoli yn disgrifio'r cymorth ariannol sydd ar gael i feddygon a deintyddion preswyl pe bai'n rhaid iddynt adleoli neu deithio i leoliad hyfforddi sy'n bellach yn ddaearyddol.

## 2. Ar gyfer pwy mae'r polisi hwn?

Mae'r polisi hwn yn gymwys i feddygon a deintyddion preswyl ar raglenni hyfforddiant cymeradwy AaGIC yng Nghymru gyda phenodiadau o flwyddyn neu fwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hyfforddeion Sylfaen Meddygol Blwyddyn 1
- Hyfforddeion Sylfaen Meddygol Blwyddyn 2
- Hyfforddeion Hyfforddiant Arbenigol (ST1 a CT1 ac uwch gan gynnwys hyfforddeion WCAT)
- Hyfforddeion Deintyddol Craidd ac Arbenigol
- LAT – Penodiadau Locwm ar gyfer Hyfforddiant gan gynnwys FTSTA deintyddol

Ni fwriedir i'r polisi hwn gael ei ddefnyddio ar gyfer swyddi a benodwyd gan Fyrddau Iechyd, e.e. penodiadau locwm ar gyfer gwasanaeth, swyddi cymrawd clinigol neu unrhyw leoliadau y tu allan i raglen neu secondiadau yng Nghymru a gweddill y DU.

## 3. Beth sydd wedi'i gynnwys yn y polisi hwn?

Bwriadwyd i'r polisi hwn gael ei ddefnyddio gan feddygon a deintyddion preswyl sy'n penderfynu:

- Adleoli i Gymru ar ôl cael eu penodi i raglen hyfforddi gylchdro AaGIC (Caniateir treuliau o'r porthladd mynediad i'r DU)
- Adleoli o fewn Cymru ar ôl penodiad i raglen hyfforddi cylchdro AaGIC
- Symud i ran arall o Gymru i gwblhau cylchdro hyfforddiant yn ystod rhaglen hyfforddi cylchdro AaGIC
- Peidio â symud a hawlio costau teithio ychwanegol am y gwahaniaeth rhwng cael lleoliad hyfforddi newydd a lleoliad sefydlog yr hyfforddai ôl-raddedig, yn ystod rhaglen hyfforddiant cylchdro AaGIC.

Y lleoliad sefydlog yw'r ysbyty neu'r lleoliad hyfforddi (i'r rhai mewn amgylchedd hyfforddi cymunedol), yn ystod rhaglen hyfforddiant cylchdro, sydd agosaf at gyfeiriad cartref y meddyg neu ddeintydd preswyl. Mae hyn yn unol â pharagraff 315 o Delerau ac Amodau Gwasanaeth Staff Meddygol a Deintyddol Ysbytai'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Meddygon mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus a Gwasanaeth Iechyd Cymunedol Cymru a Lloegr 2002 (fel y'i diwygiwyd).

Dylai'r meddyg neu'r deintydd preswyl nodi'r lleoliad sefydlog ar ddechrau eu cylchdro hyfforddiant cyntaf mewn rhaglen hyfforddiant cylchdro a bydd yn cael ei ailasesu yn dilyn eu penodi ar raglen hyfforddi wahanol. Gellir newid y lleoliad sefydlog yn ystod rhaglen hyfforddiant cylchdro'n ddiweddarach gyda sêl bendith AaGIC cyn dechrau unrhyw gylchdro wedi hynny. Os oes unrhyw ddryswch ynglŷn â pha leoliad yw'r ysbyty /lleoliad sefydlog, dylai'r hyfforddai drafod hyn gydag AaGIC. Ceir enghreifftiau o gyfrifiadau ysbyty /lleoliad sefydlog yn y Cwestiynau Cyffredin.

**F1/F2** – y lleoliad sefydlog fydd yr ysbyty agosaf at gyfeiriad cartref y meddyg neu'r deintydd preswyl sy'n un o'r lleoliadau hyfforddi ar gyfer y rhaglen hyfforddiant cylchdro F1/F2 maent yn rhan ohoni. Bydd hwn yn cael ei ddangos ar intrepid (i'w alw'n system Codi cyn bo hir).

**Cofrestrydd Meddyg Teulu** - y lleoliad sefydlog fydd yr ysbyty/lleoliad cymunedol agosaf at gyfeiriad cartref y meddyg preswyl sy'n un o'r lleoliadau hyfforddi ar y rhaglen hyfforddiant cylchdro GPST maent yn rhan ohoni. Bydd hwn yn cael ei ddangos ar intrepid (i'w alw'n system Codi cyn bo hir).

**Hyfforddai Arbenigol** – y lleoliad sefydlog fydd yr ysbyty/lleoliad cymunedol agosaf at gyfeiriad cartref y meddyg neu'r deintydd preswyl a allai fod yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant cylchdro, fel y manylir ar y matrics arbenigedd. Bydd hyn yn cael ei nodi ar ddechrau'r hyfforddiant arbenigedd ac ni fydd yn newid oni bai bod y cyfeiriad cartref yn newid. Bydd hwn yn cael ei ddangos ar intrepid (i'w alw'n system Codi cyn bo hir).

## 4. Preswylfa yng Nghymru

Fel arfer, bydd angen i feddygon neu ddeintyddion preswyl sy'n llwyddo i ymuno â rhaglen hyfforddiant cylchdro AaGIC fyw yng Nghymru ac yn agos at o leiaf un o'r lleoliadau lle bydd yr unigolyn yn cylchdroi yn ystod eu rhaglen hyfforddiant cylchdro. Mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd

ag amcanion Siarter Gorflinder a Chyfleusterau Cymru, sydd â'r nod o amddiffyn hyfforddeion rhag y gorflinder a achosir gan gymudo'n rhy bell.

Lle nad yw unigolion yn adleoli i Gymru, rhaid i'r cyfeiriad cartref fod o fewn 65 milltir i'r lleoliad sefydlog.

Mewn achosion eithriadol lle mae unigolion yn dewis peidio â symud eu cartref parhaol i Gymru, gall cymhwystra i gael ad-daliad gael ei gyfyngu fel y nodir ym mharagraff 5.3/5.4.

**5. Treuliau a ganiateir**

Caniateir y treuliau canlynol o dan y polisi hwn.

5.1 Treuliau adleoli

Gall meddygon neu ddeintyddion preswyl sy'n dewis symud eu cartref i ddechrau eu rhaglen hyfforddiant cylchdro yng Nghymru neu sy'n derbyn cylchdro fel rhan o raglen hyfforddiant cylchdro gydnabyddedig hawlio treuliau adleoli. Mae treuliau adleoli yn cynnwys y canlynol:

1. Ffioedd cyfreithiol a gwerthwr tai
2. Ffioedd symud a storio (nid yw deunyddiau pacio wedi'u cynnwys)
3. Ffioedd syrfëwr
4. Treth trafodiadau tir

Dim ond ffioedd symud a storio y bydd y rhai sy'n cadw eu cartref blaenorol ac yn prynu cartref newydd ychwanegol neu'n symud i lety rhent yn gymwys i'w hawlio.

Gall dau neu fwy o feddygon neu ddeintyddion preswyl sy'n adleoli gyda'i gilydd hawlio costau adleoli ond ni allant hawlio ddwywaith am yr un treuliau. Serch hynny, lle mae treuliau ar y cyd (e.e. treth trafodiadau tir) yn fwy na'r lwfans sydd ar gael i un meddyg neu ddeintydd preswyl, gall y meddyg neu'r deintydd preswyl arall hawlio gweddill cost y treuliau hyn hyd at derfyn eu lwfans. Enghraifft o hyn yw lle mae treth trafodiadau tir yn £10,000, gall meddyg neu ddeintydd preswyl ddefnyddio'r cyfan neu ran o'u lwfans blynyddol tuag at y gost hon.

Nid yw dodrefn a ffitiadau, deunyddiau pacio, costau pacio a dadbacio a biliau cartref fel y

dreth gyngor, band eang etc. wedi'u cynnwys.

Dim ond os caiff ei wneud o fewn 12 mis i'r meddyg neu'r deintydd preswyl yn dechrau yn y lleoliad hyfforddi hwnnw y caiff hawliad adleoli ei gymeradwyo, e.e. ni fydd prynu tŷ ar ôl 12 mis yn cael ei ystyried fel adleoli.

5.2 Ymweliad rhagarweiniol

Bydd cost dau ymweliad rhagarweiniol ag ardal y penodiad newydd yn cael ei dalu er mwyn trefnu llety. Gellir talu treuliau teithio a lwfansau cynhaliaeth dros nos ar gyfer y meddyg neu'r deintydd preswyl a'u partner am hyd at ddwy noson ar gyfer pob ymweliad.

Gweler paragraff 8 am fanylion y cyfraddau sy'n cael eu talu.

5.3 Lwfans ymrwymiadau parhaus

Mae'r lwfans hwn yn daladwy pan fydd meddyg neu ddeintydd preswyl wedi symud i'r lleoliad newydd cyn iddynt werthu eu heiddo neu gwblhau eu rhwymedigaethau mewn cytundeb rhentu presennol yn yr hen leoliad. Rhaid i'r meddyg neu'r deintydd preswyl fod yn symud i'r lleoliad newydd yn barhaol er mwyn i'r lwfans hwn gael ei dalu, gan gynnwys adleoli unrhyw bartner. Mae'r lwfans yn daladwy ar gyfradd y lwfans ymrwymiad parhaus, am uchafswm o 12 mis calendr.

Mae treth ac yswiriant gwladol yn daladwy ar y lwfans hwn.

Mae teithio i wirio'r ymrwymiad parhaus yn daladwy'n unol ag adran 5.8.

5.4 Lwfans llety rhent

Pan fydd meddyg neu ddeintydd preswyl ar gylchdro o un lleolliad i'r llall ac nad yw'n bosib cymudo o'u cartref, byddant yn gymwys i gael lwfans rhent sy'n daladwy ar y gyfradd rhentu llety dros dro yn ogystal â siwrneiau adref yn unol â pharagraff 5.8. Mae'r lwfans yn daladwy ar gyfradd yr ymrwymiad rhentu newydd. Ni fydd y meddyg neu'r deintydd preswyl yn gymwys am lwfans llety rhent os ydynt yn derbyn incwm rhent ar eu heiddo parhaol neu os yw eu cartref parhaol y tu allan i Gymru ac ymhellach na 65 milltir o'u lleoliad hyfforddi agosaf yn eu rhaglen hyfforddiant cylchdro yng Nghymru.

Bydd meddygon neu ddeintyddion preswyl yn cael cyfnod gras o flwyddyn o'r dyddiad pan fyddant yn dechrau eu swydd yng Nghymru i'w galluogi i adleoli i Gymru neu o fewn 65 milltir i unrhyw un o'u lleoliadau hyfforddi yn eu rhaglen hyfforddiant cylchdro.

Mae treth ac yswiriant gwladol yn daladwy ar y lwfans hwn.

5.5 Lwfans rhent ychwanegol

Gellir talu'r lwfans hwn i feddygon neu ddeintyddion preswyl sy'n symud o lety rhent yn yr hen leoliad hyfforddi i lety rhent yn y lleoliad hyfforddi newydd a lle mae'r gost yn uwch. Gall y llety fod wedi'i ddodrefnu neu heb ei ddodrefnu. Y gwahaniaeth rhwng y ddwy gost fydd y cyfanswm a delir.

Ni yw blaendaliadau/bondiau yn ad-daladwy.

Dim ond am gyfnod o 12 mis calendr ar ôl i'r meddyg neu'r deintydd preswyl symud y bydd modd hawlio lwfans rhent ychwanegol. Mae hyn yn galluogi i'r meddyg neu'r deintydd preswyl wneud trefniadau cynllunio ariannol priodol.

Dim ond i feddygon/deintyddion preswyl sy'n symud at ddibenion hyfforddi y telir rhent ychwanegol.

Dim ond i feddygon neu ddeintyddion preswyl sydd wedi symud o lety mewn ardaloedd o'r DU y telir rhent ychwanegol.

Os yw'r meddyg neu'r deintydd preswyl wedi symud o lety rhent, lle nad oeddent yn talu rhent e.e. cartref eu rhieni, ni fyddant yn gymwys i hawlio rhent ychwanegol.

Lle mae meddyg neu ddeintydd preswyl wedi bod yn derbyn llety am ddim a oedd wedi'i ddarparu gan y Bwrdd Iechyd yn y gorffennol, bydd buddiant llety o'r fath fel y nodir ar y P11D yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r rhent ychwanegol.

Nid yw'r lwfans hwn yn daladwy os oes gennych eiddo arall sy'n cael ei gyfrif fel Lwfans Ymrwymiad Parhaus neu Lwfans Llety Rhent yn unol â pharagraff 5.3.

Dim ond os yw'r eiddo rhent yng Nghymru neu o fewn 65 milltir i'r lleoliad sefydlog y mae'r lwfans hwn yn daladwy.

Mae treth ac yswiriant gwladol yn daladwy ar y lwfans hwn.

5.6 Llety dros dro

Gellir talu treuliau teithio a lwfansau llety dros nos pan fydd angen i feddyg neu ddeintydd preswyl aros mewn llety dros dro byr dymor am 5 diwrnod neu lai i fodloni gofynion y lleoliad hyfforddi tra’n cadw ymrwymiadau yn eu preswylfa barhaol.

Mae enghreifftiau'n cynnwys hyfforddeion Meddygaeth Frys Cyn Ysbyty (PHEM) sy'n aml yn ymgymryd â sawl lleoliad byr (5 niwrnod neu lai) ledled Cymru fel rhan o'u rhaglen hyfforddi.

Nid yw llety ar-alw’n daladwy fel rhan o'r polisi adleoli.

5.7 Cost teithio o hen gartref i gartref newydd

Bydd y lwfans hwn yn talu cost un siwrnai o'r hen gartref i'r un newydd ar gyfer y meddyg neu’r deintydd preswyl a’u partner. Os bydd meddyg neu ddeintydd preswyl yn defnyddio car preifat ar gyfer y siwrnai, bydd y milltiroedd yn cael eu had-dalu yn ôl y gyfradd trafnidiaeth gyhoeddus.

5.8 Dychwelyd adref ar ymweliadau

Gall meddygon neu ddeintyddion preswyl sy'n symud i fyw yn agos at eu swydd newydd ond nad ydynt am symud eu cartref parhaol gael ad-daliad am gost teithio adref ar un ymweliad dychwelyd yr wythnos yn ogystal â hawlio lwfans llety rhent yn unol â pharagraff 5.4.

Bydd meddygon neu ddeintyddion preswyl sy’n derbyn lwfans ymrwymiad parhaus yn gallu hawlio un siwrnai fisol i wirio eu heiddo nes bydd wedi’i werthu neu fod rhwymedigaethau cytundeb rhent wedi'u cyflawni yn unol â pharagraff 5.3.

Mae ymweliadau dychwelyd wedi'u cyfyngu i gyfnod o 12 mis fel y nodir ym Mharagraff 5.3 a 5.4.

Ni ellir hawlio'r lwfans hwn os nad ydych chi'n hawlio lwfans llety rhent neu lwfans ymrwymiad parhaus.

Mae treth ac yswiriant gwladol yn daladwy ar y lwfans hwn

5.9 Treuliau teithio ychwanegol

Lle bydd meddyg neu ddeintydd preswyl yn dewis peidio â symud i fod yn agosach at safle cylchdro o fewn rhaglen hyfforddiant cylchdro, gallant hawlio costau teithio (milltiroedd neu bris tocyn) am y gwahaniaeth rhwng y teithio o gartref i'w lleoliad sefydlog a gartref i'w lleoliad hyfforddiant cyfredol. Dylid cyflwyno hawliadau am deithio ychwanegol yn fisol ac nid ydynt yn daladwy am unrhyw gyfnodau lle na fynychir y lleoliad hyfforddi. Dylid cyflwyno hawliadau o fewn 3 mis i'r dyddiad teithio.

Os yw meddyg neu ddeintydd preswyl yn gweithio mewn mwy nag un lleoliad hyfforddi (rhaid i hyn fod yn batrwm sefydlog rheolaidd o weithio, e.e. clinigau rheolaidd mewn gwahanol ysbytai neu ymrwymiadau ar-alw), gallant hawlio'r costau teithio ychwanegol hyn drwy'r broses adleoli.

O ran teithio ychwanegol, nid oes angen defnydd busnes ar yswiriant car.

Mae Teithio Ychwanegol yn daladwy naill ai fel cost y filltir a delir yn ôl cyfradd trafnidiaeth gyhoeddus neu fel pris tocyn os defnyddir trafnidiaeth gyhoeddus.

Ni chaniateir ad-daliadau am siwrneiau tacsi.

Dylid hawlio gwaith ad hoc sy’n cael ei gwblhau gan feddyg neu ddeintydd preswyl fel milltiroedd busnes cyflogwr. Ar gyfer hyn, mae angen i'r meddyg neu'r deintydd preswyl gael

defnydd busnes ar eu hyswiriant car.

**6. Penodiadau Locwm ar gyfer Hyfforddiant (LAT) ac Ymlyniadau Hyfforddiant Arbenigol Tymor Penodol (FTSTA)**

Gall Apwyntiadau Locwm ar gyfer Hyfforddiant a hyfforddeion FTSTA deintyddol hawlio o dan y polisi hwn er nad ydynt o reidrwydd yn rhan o gynllun hyfforddiant cylchdro.

**7. Cywirdeb gwybodaeth**

Mae gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hawl i ofyn am brawf rhesymol o dreuliau unrhyw bryd. Caiff pob meddyg neu ddeintydd preswyl sy’n gwneud cais am dreuliau adleoli neu deithio ychwanegol eu hatgoffa i ddisgrifio eu hamgylchiadau'n gywir ac y bydd unrhyw ddatganiadau neu honiadau sy’n fwriadol gamarweiniol neu ffug yn cael eu trin yn ddifrifol iawn a gall arwain at atgyfeirio’r achos at y Swyddog Gwrth-Dwyll lleol.

**8. Lwfans blynyddol a darpariaethau cyffredinol**

Bydd y swm blynyddol y gellir ei hawlio fel ad-daliad adleoli i’w weld yn nogfen cwestiynau cyffredin AaGIC ar adleoli a gwefan Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Lle bo’n bosib, dylai meddygon neu ddeintyddion preswyl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dim ond cost teithio dosbarth economi neu safonol fydd yn cael ei ad-dalu. Rhaid i bob hawliad gynnwys tocynnau neu dderbynebau dilys. Lle bo meddyg neu ddeintydd preswyl yn defnyddio eu car eu hunain, byddant yn cael eu had-dalu’n ôl y gyfradd trafnidiaeth gyhoeddus. Rhaid cyflwyno ceisiadau’n brydlon a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hawliadau sy'n hŷn na 3 mis yn cael eu hanrhydeddu. Mae'r Cwestiynau Cyffredin yn amlinellu amgylchiadau eithriadol.

Dim ond o'r fan lle maent yn cyrraedd y DU y bydd gan feddygon neu ddeintyddion preswyl o dramor hawl i dreuliau.

Bydd yr holl gostau y cyfeirir atynt yn y polisi hwn ar gyfer cynhaliaeth, teithio, llety a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu had-dalu’n unol â'r cyfraddau a nodir yn Nhelerau ac Amodau Staff Meddygol a Deintyddol Ysbytai’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Meddygon Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus a Gwasanaeth Iechyd Cymunedol Cymru a Lloegr 2002 (fel y'i diwygiwyd).

**9. Atebolrwydd treth**

Dylai meddygon a deintyddion nodi y bydd rhai o'r treuliau a ddisgrifir yn y polisi hwn yn atebol am daliadau treth incwm ac yswiriant gwladol. Bydd hyn yn cael ei dynnu o ad-daliadau a wneir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cynghorir meddygon a deintyddion preswyl i gael cyngor proffesiynol ar eu rhwymedigaethau treth o ganlyniad i’r ad-daliad a dderbyniwyd. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi http://www.hmrc.gov.uk/guidance/relocation.htm

**10. Apelio ac anghydfodau**

Efallai y bydd eithriadau ac amgylchiadau’n codi lle gallai cymhwyso'r polisi hwn yn ymarferol arwain at dreuliau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi hwn. Gall fod amgylchiadau eithriadol hefyd am resymau eraill sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Os bydd y rhain yn digwydd, bydd yr achosion hyn yn cael eu hystyried yn unigol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Os bydd meddyg neu ddeintydd preswyl yn anghytuno ag unrhyw agwedd ar gymhwyso'r polisi hwn, bydd cyfle iddynt i ofyn am esboniad ac eglurhad pellach fel y nodir yn y Cwestiynau Cyffredin.